


Mae Caerdydd AM BYTH wedi cytuno i ariannu dau Gwnstabl o Heddlu De Cymru er mwyn creu tîm Heddlu AGB penodol - y cyntaf o'i fath yng Nghymru.

Bydd y tîm newydd yn cynnwys dau swyddog a fydd yn gweithio'n uniongyrchol gyda Chwmni'r AGB gyda bri i fynd i'r afael, yn benodol, â materion canol y ddinas. Gall hyn gynnwys cardotwyr ymosodol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau manwerthu.

Bydd busnesau'n gallu codi materion gyda tîm Caerdydd AM BYTH a fydd yn eu trosglwyddo'n uniongyrchol i'r swyddogion.

Crëwyd y swyddi yn dilyn ymgynghoriad gydag aelodau'r AGB ac adolygiad o'n prosiectau Croesawy i ganfod sut y gellir cynorthwyo aelodau'n well. Bydd Caerdydd AM BYTH yn sicrhau bod y swyddogion yn ymwybodol o'r materion sy'n e eithio ar yr AGB fel rhan o ymrwymiad i blismona'r gymdogaeth. Mae'r swyddogion yn ychwanegol at unrhyw adnodd blaenorol.

Y llynedd, trefnodd Caerdydd AM BYTH i osod basgedi crog a phlanhigfeydd yn llawn blodau hyfryd i ddod â sblash o liw i ganol y ddinas. Cawsom adborth gwych i'r prosiect ac fe'i hailadroddwyd eleni. Gyda 32 o blanhigfeydd a 380 o fasgedi crog, mae gosodiadau eleni yn fwy ac yn well nag o'r blaen, ac mewn lleoliadau newydd ar draws y ddinas.




## MARSHALS NOS

Ym mis Ebrill fe benderfynodd Caerdydd AM BYTH wella profiad pobl yng nghanol y ddinas yn ystod y nos trwy lansio tîm o ddeg Marshal Nos.

Ers i'r tîm ddechrau maent wedi cynorthwyo 35,728 o bobl. Yn nodedig, fe'u defnyddiwyd gan dros 4000 o bobl bob nos yn ystod cyngherddau Ed Sheeran a'r Rolling Stones. Maent hefyd wedi adnabod nifer o dacsis twyllodrus ac wedi cysylltu â thimau rheoleiddio'r Cyngor i sicrhau bod y gwasanaeth tacsi yn ddiogel ar gyfer trigolion Caerdydd ac ymwelwyr yn ystod gweithgareddau'r hwyr.

## TÎM GLANHAU CAERDYDD AM BYTH

Mae gan ein tîm glanhau dynodedig ddwy fan, peiriant jet ac ysgubwr ordd. Maent yn darparu gwasanaeth glanhau yn y fan a'r lle i fusnesau ac maent yn rhagweithiol pan fyddant yn gweld cyfleoedd i wneud i'r ddinas ddisgleirio.

Yn eu blwyddyn gyntaf mae'r tîm wedi:

- Llif-olchi dros 116,000 metr sgwâr o ganol dinas Caerdydd, sef 16 o gaeau pêl-droed!
- Wedi tynnu dros 40,000 o ddarnau gwm o strydoedd Caerdydd
- Wedi dileu dros 3,000 o dagiau graffiti
- Wedi defnyddio dros 60 galwyn o baent i sbriwsio ardaloedd a esgeuluswyd



## LLYSGENHADON

Mae'r tîm o naw Llysgennad Stryd wedi hen ymsefydlu yng nghymuned fusnes Caerdydd, gan ymgysylltu â chwech busnes bob dydd. Gwnaed dros 12,000 o ymweliadau ganddynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent hefyd yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r cyhoedd. Byddant yn cychwyn eu diwrnod yn yr orsaf drenau i gynghori a chefnogi ymwelwyr i ganol y ddinas trwy roi cyfarwyddiadau neu eu hebrwng i dros 2,500 o leoliadau.



# FFYNIANNUS

Mae saith arcêd hanesyddol Caerdydd wedi bod yn denu siopwyr ers can mlynedd neu fwy ac ym mis Mehefin lansiodd Caerdydd AM BYTH ymgyrch arbennig i godi eu proffil ac i sefydlu Caerdydd fel Dinas yr Arcêd.

Gofynnodd Caerdydd AM BYTH i drigolion ac ymwelwyr rheolaidd â'r ddinas i gefnogi'r ymgyrch trwy bleidleisio am eu ho siop, caffi, bar, siop barbwr neu westy o fewn y bron i 800 metr o arcedau.

Cafodd gwefan ei greu ar gyfer yr ymgyrch â ddenodd 15,000 o ymwelwyr unigryw o fewn pedair wythnos a casglwyd 9,500 o bleidleisiau. Bydd y busnesau mwyaf poblogaidd yn cael eu cynnwys ar restr 10 Uchaf yr Arcedau a fydd yn cael eu defnyddio i hysbysebu ail gam yr ymgyrch ym Mryste, Caerfaddon a Chaerdydd ym mis Medi. Bydd yr ymgyrch hysbysebu gy rous gwerth £ 75,000 yn cynnwys hysbysfyrddau, cefn bysiau, sgriniau digidol ac hysbysebu ar-lein, gan annog pobl i ddod i weld beth sydd gan Caerdydd i'w gynnig.

I ddarganfod pa fusnesau sydd yn y rhestr 10 Uchaf, ewch i dinasyrarced.com

Ymrwymodd Caerdydd AM BYTH, yn ein cynllun busnes, i sicrhau cydnabyddiaeth genedlaethol trwy ennill gwobrau. Roedden wrth ein bodd i fod ar y rhestr fer ar gyfer gwobr y 'Cynllun Marchnata a Brandio Gorau' ar gyfer ei hymgyrch 'Ffordd Amgen i Roi' yn Noson Wobrwyo Cymdeithas Genedlaethol Rheoli Tref a Dinas. Gallwn, bellach, gyhoeddi ein bod wedi ennill!

Mae ymgyrch 'Ffordd Amgen i Roi' yn defnyddio



Ym mis Mehefin, gwahoddodd Caerdydd AM BYTH bob aelod i fynychu ein Sioe Arddangos Flynyddol gyntaf, a gartrefwyd gan aelod gwirfoddol newydd, 'The Cornerstone'. Roedd yr achlysur yn gyfle i fwynhau diodydd a danteithion gyda tîm ac aelodau Bwrdd Caerdydd AM BYTH ac i ddysgu am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf.

Diolch yn fawr iawn i'r 70, a mwy, ohonoch a ddaeth i ymuno â ni. Os na lwyddoch i fynychu'r digwyddiad ond eich bod yn awyddus i wybod beth a drafodwyd ewch i YouTube a gwyliwch y fideo ar ein sianel. Gallwch hefyd ofyn am gyfarfod ag un o'r tîm trwy e-bostio: info@forcardi .com.

Mae digwyddiadau mawr wedi llenwi calendr Caerdydd tros y misoedd diwethaf. Croesawyd per ormwyr o'r radd flaenaf megis Beyoncé, Jay-Z, Ed Sheeran a'r Rolling Stones. Mae yna bob amser wefr yn yr aer ar gyfer y digwyddiadau hyn ac roedden am sicrhau bod yr hwyl yn parhau trwy drefnu rhaglen o adloniant ategol gydag artistiaid a pher ormwyr gwych a fyddai'n sicrhau gwefr ychwanegol!







## GŴYL FFILMIAU BYR CAERDYDD

Cyflwynodd Gŵyl Ffilmiau Byr Caerdydd, sydd bellach yn ei 7fed flwyddyn, eu digwyddiad mwyaf hyd yma gyda 3 diwrnod o ddangosiadau ffilm a digwyddiadau arbennig eraill. Trwy ga ael arianwyr a noddwyr newydd mae'r ŵyl wedi ymestyn ei rhaglen ac roedd Caerdydd AM BYTH yn falch i gefnogi'r digwyddiad fel ordd i gydnabod a dathlu'r talent cynhyrchu ffilm newydd sydd yng Nghaerdydd. Mewn ymgais i arddangos y gorau o'r ddinas defnyddiodd yr ŵyl fariau, arcedau a siopau gwag i ddarparu profiad unigryw wrth wylio ffilmiau. Croesawodd yr ŵyl wneuthurwyr ffilm o bob cwr o'r byd a channoedd o aelodau o'r cyhoedd.


## TAFWYL



Tafwyl yw'r ŵyl gelfyddydol a diwylliannol Gymraeg a gynhelir yn flynyddol yng Nghaerdydd, gyda chymysgedd fywiog o gerddoriaeth, llenyddiaeth, drama, comedi, celf, chwaraeon, bwyd a diod. Mae'r digwyddiad yn naw diwrnod i gyd: digwyddiadau ymylol a gynhelir o gwmpas y ddinas am 7 niwrnod, gan ddod i ben gyda'r prif ddigwyddiad yng Nghastell Caerdydd ar 30 Mehefin a 1 Gor ennaf. Mae'r mynediad am ddim ac mae'n agored i bawb - siaradwyr Cymraeg ai peidio. Mae'n ddigwyddiad gwych i deuluoedd, dysgwyr Cymraeg a phobl sy'n profi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg am y tro cyntaf. Cefnogodd Caerdydd AM BYTH y digwyddiad am y tro cyntaf eleni, gan fuddsoddi £15,000 tuag at y marchnata er mwyn i'r ymgyrch gyhoeddusrwydd fod mor eang â phosibl. Rydym wrth ein bodd â pha mor llwyddiannus y bu'r digwyddiad ar gyfer canol y ddinas.

## GŴYL IRIS A BAFTA CYMRU

Mae Caerdydd AM BYTH yn ymrwymo i gefnogi digwyddiadau newydd a sefydledig. Y llynedd, bu'n gweithio gyda Gŵyl Iris a BAFTA Cymru. Bu'r noddi yma yn hynod o lwyddiannus ac yn gyfrwng i roi hwb economaidd gwirioneddol i'r ddinas. Bydd ein cefnogaeth ar gyfer y digwyddiadau gwych yma yn parhau am y flwyddyn hon gyda' r addewid y byddant yn fwy ac yn well.




Yn yr hydref fe fydd darparwyr y gwasanaeth cwsmer gorau yng Nghaerdydd yn cael eu coroni yn dilyn cyfres o ymweliadau siopa dirgel. Os hoffech i'ch busnes gael cyfle i ennill yr oll sydd angen i chi ei wneud ydi cofrestru am ymweliad trwy gysylltu â: emily@forcardiff.com. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer aelodau Caerdydd AM BYTH.

Gall aelodau Caerdydd AM BYTH gael gostyngiad o 10% ar aelodaeth corfforaethol y cynllun llogi beiciau newydd, Nextbike.